# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Gorffennaf 2018

Amser: 14.01 - 16.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/4751) yn:

http://senedd.tv/cy/4751

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Steve Webster, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Allison Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf<br>Dr Jacinta Abraham, Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>Stuart Morris, Ymddiriedolaeth GIG Felindre<br>Mark Osland, Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas CBE - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC ac Adam Price AC. Ni chafwyd dirprwyon.

1.3 Datganodd Lee Waters AC fuddiant ar gyfer Eitem 4 gan fod ei wraig yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Gohebiaeth y Pwyllgor

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: sesiwn dystiolaeth 1

4.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Allison Williams, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Steve Webster, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fel rhan o'r ymchwiliad i Weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

4.2 Cytunodd Steve Webster i anfon rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyfran yr arbedion nad oeddent yn digwydd eto yn 2017-18.

## 5 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: sesiwn dystiolaeth 4

5.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Mark Osland, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwybodeg, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a Stuart Morris, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodeg, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, fel rhan o'r ymchwiliad i Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Blaenraglen waith: Tymor yr hydref 2018

9.1 Nododd yr Aelodau Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref 2018 a chytuno arni.